# PANEL HEDDLU A THROSEDDU DYFED-POWYS

Dydd Llun, 27 Mawrth 2017

**YN BRESENNOL: A. Lloyd-Jones (Cadeirydd);**

**Aelodau o Gyngor Sir Caerfyrddin:-**

**Y Cynghorwyr W.J.W. Evans a P.E.M Jones**

**Aelodau o Gyngor Sir Ceredigion:-**

**Y Cynghorwyr J.D. Rowland Jones a T.H. Lewis;**

**Aelodau o Gyngor Sir Penfro:-**

**Y Cynghorydd S.Yelland;**

**Aelodau o Gyngor Sir Powys:-**

**Y Cynghorwyr D.O. Evans, G. Jones a P. Medlicott;**

**Aelodau Annibynnol:-**

**Mrs. H.M. Thomas;**

**Yn bresennol o Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu:-**

**Mr. D. Llywelyn - Y Comisiynydd Heddlu a Throseddu;**

**Mrs. C. Morgans - Pennaeth y Staff;**

**Ms. J. Woods - Prif Swyddog Ariannol**

**Ms. S. Richards - Rheolwr Llywodraethu a Dirprwy Swyddog Monitro;**

**Yn bresennol o Heddlu Dyfed-Powys:-**

**Y Prif Gwnstabl Mike Collins; J. Rees; L. Davies;**

**Roedd y swyddogion canlynol hefyd yn bresennol: -**

**Cyngor Sir Caerfyrddin:-**

**Mr. R. Edgecombe - Rheolwr Dros Dro y Gwasanaethau Cyfreithiol;**

**Ms. L. Morris - Uwch-swyddog y Wasg;**

**Mr. M.S. Davies - Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.**

**Y Siambr, Heol Spilman, Caerfyrddin 10.30 a.m.– 12.30 p.m.**

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB A MATERION PERSONOL

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr W.G. Hopkins [Cyngor Sir Caerfyrddin] a R. Summons [Cyngor Sir Penfro] a'r Athro I. Roffe.
Safodd aelodau'r Panel i roi teyrnged dawel i Gwnstabl Keith Palmer a'r bobl eraill a ddioddefodd yn yr ymosodiad diweddar ger San Steffan, Llundain.
Cyfeiriodd y Cadeirydd at y ffaith mai dyma gyfarfod olaf y Panel cyn yr etholiadau sydd ar ddod, a diolchodd yr aelodau sydd wedi penderfynu peidio ail-sefyll etholiad am eu cyfraniad i waith y Panel, a dymunodd yn dda iddynt.

## 2. DATGAN BUDDIANNAU

Ni chafwyd dim datganiadau o fuddiant personol.

3. **COFNODION**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi bod cofnodion cyfarfod Panel Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys, a gynhaliwyd ar 21 Chwefror 2017, yn gywir, yn amodol ar nodi bod y Cynghorydd S. Yelland wedi bod yn bresennol fel yr unig gynrychiolydd o Gyngor Sir Penfro ac nid y Cynghorydd R. Summons oedd wedi cyflwyno'i ymddiheuriad.**

4. **MATERION SY'N CODI O'R COFNODION**

Yn ychwanegol at Gofnod 6, Cymdeithas y Paneli Heddlu a Throseddu, rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor fod y Grŵp Llywio a gafodd ei sefydlu yn parhau i ddatblygu'r cynigion ymhellach a'r gobaith yw y bydd y canlyniad yn wybyddus yn fuan.

Gan gyfeirio at Gofnod 8, Cynhadledd Flynyddol y Paneli Heddlu a Throseddu, cadarnhaodd Rheolwr Dros Dro y Gwasanaethau Cyfreithiol ei fod wedi derbyn pynciau craffu ffafriedig oddi wrth rai o aelodau'r Panel.

Gan gyfeirio at Gofnod 9, Gweledigaeth Blismona 2025, dywedodd Rheolwr Dros Dro y Gwasanaethau Cyfreithiol fod ymateb i'r Weledigaeth Blismona wedi'i anfon ar ran y Panel a bod Paneli Heddlu a Throseddu eraill yng Nghymru wedi derbyn copi.

Parthed cofnod 10, Newidiadau i Drefniadau'r Panel, dywedodd Rheolwr Dros Dro y Gwasanaethau Cyfreithiol fod llythyr oedd yn gofyn am ganiatâd i dynnu ymaith y cyfyngiad a geir ym mharagraff 7.3 o'r trefniadau sy'n ymwneud â threuliau aelodau wedi'i anfon at y Swyddfa Gartref, a disgwylid am ateb.

5. **GWEITHREDU'R CYNLLUN HEDDLU A THROSEDDU**

Yn ychwanegol at Gofnod 7 o'r cyfarfod diwethaf, roedd y Comisiynydd Heddlu a Throseddu wedi cyflwyno'i Gynllun Heddlu a Throseddu ar gyfer 2017-2021 a rhoddodd fraslun i'r Panel o'i gynigion ar gyfer gweithio mewn partneriaeth ac ar gyfer sicrhau bod y Cynllun yn cael ei weithredu gan Heddlu Dyfed-Powys. Siaradodd am ei ddymuniad i ymgysylltu'n rheolaidd ag aelodau etholedig ac i gryfhau'r berthynas honno. Bydd y Cynllun, meddai, yn cael ei lansio mewn digwyddiadau a sioeau teithiol allweddol oedd wrthi'n cael eu trefnu ar y cyd â'r Heddlu. Rhoddodd y Prif Gwnstabl fraslun o sut byddai'r Heddlu yn cyflawni blaenoriaethau Cynllun y Comisiynydd Heddlu a Throseddu. Roedd hyn yn cynnwys penderfyniad i ddychwelyd i fodel rheoli oedd yn seiliedig ar bedair sir, gan ddod â Chomander yn ôl i bob sir a chynigion i broffesiynoli rôl Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu a darparu lefel ychwanegol o wyliadwriaeth ac ymgysylltiad mewn ysbytai.

Rhoddwyd sylw i'r cwestiynau/materion canlynol wrth drafod yr adroddiad:-

- Croesawodd yr aelodau'r ffaith fod y Comisiynydd Heddlu a Throseddu wedi ymgysylltu â'r cyhoedd ac aelodau etholedig wrth lunio'r Cynllun;
- Mewn ymateb i gwestiwn, cyfeiriodd y Comisiynydd Heddlu a Throseddu at y gwaith parhaus o adnewyddu Gorsaf Heddlu Porth Tywyn, gan ychwanegu mai'r bwriad dros y tair blynedd nesaf oedd gwario oddeutu £15m ar adeiladau;
- Soniodd y Prif Gwnstabl nad oedd bwriad ganddo i roi rhagor o bwerau i Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu, gan ychwanegu bod eu swyddogaethau yn ymwneud yn benodol ag atal troseddau ac ymgysylltu â'r cyhoedd;
- Cytunodd y Comisiynydd Heddlu a Throseddu i gyfeirio – yn y Cynllun – at y Panel fel un o golofnau cynhaliol y Cynllun;
- Rhoddodd y Comisiynydd Heddlu a Throseddu sicrwydd i'r Panel y byddai wastad yn ymdrechu i gefnogi'r economi leol wrth ddyfarnu contractau, yn

amodol ar reolau caffael ac ymarferoldeb economaidd;

- Cadarnhaodd y Comisiynydd Heddlu a Throseddu ei fod yn bwriadu buddsoddi eto mewn teledu cylch cyfyng;
- Cyfeiriodd y Prif Gwnstabl at y mentrau diogelu sydd ar waith i ymdrin â digwyddiadau sy'n cynnwys pobl â phroblemau iechyd meddwl.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL nodi cynigion y Comisiynydd ar gyfer gweithredu Cynllun Heddlu a Throseddu 2017-2021.**

**6. PENDERFYNIADAU'R COMISIYNYDD**

Cafodd y Panel adroddiad, er gwybodaeth, a fanylai ar y penderfyniadau a wnaed gan y Comisiynydd Heddlu a Throseddu yn ystod y cyfnod rhwng 19 Ionawr 2017 a 21 Mawrth 2017.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr adroddiad.**

**7. Y DIWEDDARAF O RAN Y WASG**

Cafodd y Panel adroddiad ynghylch y gweithgareddau a wnaed ar ei ran ym maes y wasg ers y cyfarfod diwethaf, gyda'r nod o gynyddu ei broffil a'i effeithiolrwydd. Yn benodol, rhoddwyd gwybod i'r Aelodau bod disgwyl i'r wefan newydd gael ei lansio a bod croeso iddynt wneud sylwadau. Roedd disgwyl y byddai'r wefan newydd hon, a fydd yn defnyddio brandio newydd, yn fwy hwylus i ddefnyddwyr. Roedd rhagor o adrannau yn cael eu hychwanegu, gan gynnwys adran newyddion lle gellid cyhoeddi datganiadau i'r wasg.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL anfon sylwadau'r Aelodau am y wefan newydd at Reolwr Dros Dro y Gwasanaethau Cyfreithiol.**

**8. BLAENRAGLEN WAITH**

Ystyriodd y Panel Flaenraglen Waith ddrafft oedd yn ystyried y gofynion statudol a osodwyd ar y Comisiynydd a'r Panel a'r amserlen arfaethedig ar gyfer gweithredu Cynllun Heddlu a Throseddu'r Comisiynydd. Byddai'r Rhaglen yn destun adolygiad.

**ENDERFYNWYD YN UNFRYDOL fod y Flaenraglen Waith yn cael ei chymeradwyo.**

**9. GRANT Y SWYDDFA GARTREF AR GYFER GWEITHGAREDDAU'R PANEL**

Cyflwynodd Rheolwr Dros Dro y Gwasanaethau Cyfreithiol adroddiad a oedd yn hysbysu y byddai'r awdurdod cynnal yn hawlio cyfanswm o £48,158.13 gan y Swyddfa Gartref mewn perthynas â'r gwaith a wnaed ar ran y Panel yn 2016/17. Atgoffwyd y Panel mai'r swm mwyaf y gellid bod wedi ei hawlio oedd £71,895.00. Roedd yr adroddiad yn rhoi dadansoddiad o'r hawliad. Nododd yr Aelodau nad oedd modd i'r tanwariant gael ei drosglwyddo i'r flwyddyn ganlynol.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL nodi'r grant ar gyfer blwyddyn ariannol 2016/2017**.

______________________ ____________________

**Y CADEIRYDD** **Y DYDDIAD**